# Crynodeb o’r trafodaethau yng nghyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 26 Medi 2022

#### Ymateb i gynnydd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

Rhoddwyd diweddariad i aelodau’r Bwrdd ar waith yr ASB ar Fil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) Llywodraeth y DU, sy’n cynnig newidiadau i’r gyfraith sy’n rheoleiddio bwyd a chynhyrchion bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio technegau fel bridio manwl. Gan mai dim ond yn Lloegr y byddai’r gyfraith yn gymwys, nododd aelodau’r Bwrdd bwysigrwydd lleihau anghysondebau ym Mhrydain Fawr ac roeddent yn awyddus i glywed am hynt gwaith rheoleiddio’r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â chnydau sydd wedi’u bridio’n fanwl.  ??  ?

Cydnabuwyd hefyd fod gwybodaeth i ddefnyddwyr yn rhan bwysig o ddatblygiad y Bil, a chroesawodd y Bwrdd ymchwil ac ymgysylltiad parhaus yr ASB â rhanddeiliaid wrth bennu pa wybodaeth i ddefnyddwyr sydd ei hangen a pham. Cytunodd y Bwrdd ar fanteision creu cofrestr gyhoeddus o gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sydd wedi’u bridio’n fanwl wedi’u hawdurdodi, er mwyn hybu gwybodaeth a hyder defnyddwyr.

Meddai’r Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB:

> "Mae datblygu cofrestr gyhoeddus yn rhan hanfodol er mwyn rhoi gwybodaeth angenrheidiol i bobl am fwyd a gynhyrchir gan ddefnyddio’r dechnoleg hon. Rhaid i’r ASB barhau i gasglu tystiolaeth sy’n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bridio manwl wrth i’r Bil fynd rhagddo."

Cytunodd y Bwrdd y dylai’r ASB barhau i ddatblygu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer cynhyrchion wedi’u bridio’n fanwl – a hwnnw’n fframwaith cymesur, tryloyw, sydd wedi’i seilio’n drylwyr ar wyddoniaeth a thystiolaeth i sicrhau nad yw unrhyw gynhyrchion sy’n cael eu rhoi ar y farchnad yn peryglu diogelwch bwyd na hyder defnyddwyr.??Trafodwyd proses awdurdodi ddwy haen bosib, sy’n neilltuo cynhyrchion i’r haen berthnasol yn dibynnu ar lefel y risg. Byddai’r cynhyrchion hynny nad yw sgrinio cychwynnol yn rhoi dealltwriaeth lawn o'r risg sy’n gysylltiedig â nhw yn cael eu neilltuo i haen uwch ac yn destun cam ychwanegol yn y broses awdurdodi.

Bydd y Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ar unrhyw gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Rhagfyr.?

#### Y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnes (ABC), sy’n moderneiddio’r modd y mae awdurdodau lleol yn gwirio ac yn arolygu busnesau bwyd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i ymgynghori ar newidiadau a fyddai’n cyflwyno model mwy cymesur, wedi’i lywio gan wybodaeth, i awdurdodau lleol allu gwirio bod busnesau’n dilyn rheolau fel bod bwyd yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Clywsant hefyd am brosiect i ddiwygio’r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gwirio safonau hylendid bwyd busnesau.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllun peilot newydd a oedd yn cynnwys pum manwerthwr mawr a'u prif awdurdodau i dreialu dull newydd o reoleiddio ar lefel menter.

Nododd y Bwrdd hefyd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda thri busnes dosbarthu ar-lein mawr (Uber Eats, Deliveroo a Just Eat) i ddatblygu Siarter Diogelwch Bwyd.

**Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir**

Yn ystod ei hadroddiad i'r Bwrdd, myfyriodd Prif Weithredwr yr ASB, Emily Miles, ar effaith bosib Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a gyflwynwyd i San Steffan yr wythnos diwethaf. Nod y Bil yw dod â statws arbennig yr holl ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE i ben erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023, gan y bydd unrhyw ddeddfau a ddargedwir sy'n weddill ar yr adeg hon naill ai'n cael eu diddymu neu eu cymathu yng nghyfraith ddomestig y DU.

Amcangyfrifodd Emily fod yr ASB yn gyfrifol am fwy na 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd, yn ogystal â mwy na 30 darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfansoddiad a labelu bwyd y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru. Ychwanegodd fod pwysau sylweddol i wneud y gwaith hwnnw cyn gynted â phosib, ond nododd y byddai'n her i daro cydbwysedd rhwng sicrhau diwygiadau a gweithio'n gyflym.

Wrth ymateb i hyn, dywedodd Cadeirydd yr ASB Susan Jebb:

Mae'r agenda a'r papurau ar gyfer Cyfarfod Bwrdd yr ASB mis Medi 2022 ar gael i'w darllen a gallwch wylio Cyfarfod Bwrdd yr ASB mis Medi 2022 ar YouTube. Gallwch hefyd glywed rhagor gan ein Cadeirydd, Susan Jebb, yn ei darn ar y Y Bil Rhyddid yn sgil Brexit.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Llundain ar 7 Rhagfyr 2022.

> Mae'n amlwg na allwn ddod â'r deddfau yr ydym yn gyfrifol amdanynt i ben heb beryglu iechyd y cyhoedd a'n gallu i fasnachu'n rhyngwladol, ac rwy'n si?r nad dyma yw bwriad y llywodraeth gyda'r cynlluniau hyn. Mae hefyd yn bwysig i ni gofio bod deddfau unigol wedi'u cydblethu â system gymhleth sy'n cysylltu â deddfwriaeth a gedwir gan adrannau eraill y llywodraeth.
>
> Rwy'n awyddus i ystyried p'un a allwn greu Bil Bwyd a Bwyd Anifeiliaid newydd i ddisodli llawer o Gyfraith yr UE. Byddaf yn blaenoriaethu ymgysylltu â Gweinidogion i drafod y cynlluniau diwygio rydym eisoes wedi'u creu a sut y gellir ymgorffori'r rhain fel rhan o'r broses hon. Bydd llawer o hyn yn dibynnu ar p'un a ydynt am flaenoriaethu diwygio neu gyflymder. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldebau i'r llywodraethau datganoledig, a byddaf yn trefnu i gwrdd â nhw hefyd.
>
> Rwy'n gobeithio y bydd y tîm Gweithredol yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant a grwpiau defnyddwyr i ddeall eu blaenoriaethau fel y byddwn mewn gwell sefyllfa erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr i drafod y ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r newid enfawr hwn mewn deddfwriaeth, gan barhau i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.